# Cynllun Archwilio 2021 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2393A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2021

Ynglŷn â’r ddogfen hon 4

Fy nyletswyddau 4

Effaith COVID-19 5

Archwiliad o’r datganiadau ariannol 5

Archwiliad o berfformiad 8

Swyddogaethau archwilio statudol 9

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 10

# Cynllun Archwilio 2021

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud yn ystod 2021 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

### Archwiliad o'r datganiadau ariannol

3 Bob blwyddyn rwy'n archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus.

### Gwerth am arian

4 Rhaid i'r Awdurdod sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i mi fod wedi fy argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

### Gwella'n barhaus

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) rhaid i'r Awdurdod sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Awdurdod yn debygol o (neu wedi) ateb y gofynion hyn. Gall rhai o ofynion y Mesur newid yn ystod 2021-22 oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag, rwy'n rhagweld y bydd yn dal yn ofynnol yn ystod 2021-22 fy mod yn archwilio asesiad cyhoeddedig yr Awdurdod o'i berfformiad sy'n cwmpasu blwyddyn 2020-21.

#### Egwyddor datblygu cynaliadwy

6 Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

# Effaith COVID-19

7 Mae pandemig COVID-19 yn dal i gael effaith sylweddol ledled y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus. Fel yn 2020, mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar baratoi cyfrifon 2020-21 a'm gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.

8 Mae datblygiadau diweddar mewn perthynas â rhaglen frechu'n dynodi bod disgwyl i gyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru a lefelau disgwyliedig absenoldeb oherwydd salwch ysgafnu trwy 2021. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod ansicrwydd sylweddol o hyd ac rwy'n deall efallai na fydd llawer o awdurdodau lleol yn gallu paratoi cyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn ogystal â chyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Cyffredinol, fy mlaenoriaeth i yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd ac iechyd, diogelwch a lles ein partneriaid mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus ar yr adeg anhygoel o heriol hon.

9 Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i wneud y gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn. Mewn ymateb i gyngor y Llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, nes bydd hi'n ddiogel i ni ailddechrau gweithgareddau ar safleoedd. Rwy'n dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu cyflawni i ymateb i'r heriau parhaus a achosir gan bandemig COVID-19.

10 O ganlyniad, er bod y cynllun archwilio hwn yn nodi amserlen gychwynnol ar gyfer cwblhau fy ngwaith archwilio, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch effaith COVID-19 ar y sector yn golygu y gall fod angen ailystyried rhai amseriadau. Bydd fy nhîm archwilio'n trafod unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r amserlen arfaethedig gyda'r awdurdod wrth i'r sefyllfa yn 2021 ddod yn fwy eglur.

# Archwiliad o'r datganiadau ariannol

11 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' datganiadau ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021; ac
- asesiad pa un a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a pha un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am yr Awdurdod.

12 Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am yr Awdurdod i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;

- ymateb i gwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os bydd angen); ac
- archwilio cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân yr Awdurdod.

13 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Awdurdod Tân cyn cwblhau'r archwiliad.

14 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (sef lefel perthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.

15 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

16 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

## Risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

17 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o'r Awdurdod.

**Arddangosyn 1: risgiau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi risgiau allweddol yr archwiliad o'r datganiadau ariannol a nodwyd ar adeg cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Effaith COVID-19**<br>Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gallai'r pwysau ar adnoddau staff a phwysau gweithio o bell effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi'r cyfrifon. Ceir risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol, e.e. mewn perthynas ag amcangyfrifon a phrisiadau, gael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau. | Byddaf yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi'r cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau. |
| **Dyfarniad McCloud**<br>Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, gan olygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015.<br>Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau 'diogelu dros dro' yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.<br>Daeth ymgyngoriadau ynghylch rhwymedïau arfaethedig ar gyfer cynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol, yr Heddlu a Diffoddwyr Tân i ben ym mis Hydref 2020. Cyhoeddodd y Llywodraeth yn ddiweddar, ar gyfer cynlluniau heb eu hariannu, mai'r model dewis gohiriedig fydd y tanategiad ar gyfer y rhwymedi. Nid oes cyhoeddiad wedi cael ei wneud ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eto. Disgwylir i'r manylion terfynol gael eu cyhoeddi yn ystod 2021 Disgwylir i'r rhwymedi terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod 2021.<br>Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaethau a ddatgelir dan IAS 19. | Bydd fy nhîm archwilio'n adolygu'r ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol mewn perthynas â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd o ran datblygu cynigion i'w cymhwyso yng nghynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol a Diffoddwyr Tân. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Mae'r ailbrisiad bob pum mlynedd o ystâd eiddo'r Awdurdod yn** perthyn i flwyddyn ariannol 2020-21. Mae prisiadau o'r fath yn hanfodol gymhleth, yn cynnwys meysydd sy'n ymwneud â mesur gwrthrychol ac yn cynnwys gwerthoedd perthnasol. Cododd y prisiad diwethaf yn 2015-16 rai materion archwilio. | Bydd fy nhîm archwilio'n adolygu'r maes hwn yn fanwl yn 2020-21, gan gynnwys ystyried gwaith arbenigwyr, tybiaethau a data sylfaenol a ddefnyddiwyd, a'r addasiadau cyfrifyddu a wnaed. |
| **Materion eraill** | |
| Mae CIPFA/LASAAC wedi gohirio cyflwyno IFRS 16 eto tan 1 Ebrill 2022. Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdod wneud gwaith sylweddol i adnabod prydlesi, ac fe allai pandemig COVID-19 greu risgiau o ran rhoi'r safon ar waith. | Bydd fy nhîm yn gwneud peth gwaith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno IFRS 16 Prydlesi yn 2021-22. |

# Archwiliad o berfformiad

18 Yn ychwanegol at fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel a nodir ar **dudalen 4** mewn perthynas â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

19 Mewn ymateb i'r pandemig, rwyf wedi mabwysiadu dull hyblyg o wneud fy ngwaith archwilio perfformiad o ran y testunau a gwmpesir ac o ran methodoleg. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a darparu mwy o adborth mewn amser real mewn ystod o fformatau. Ar gyfer 2021-22, rwy'n bwriadu adeiladu ar y dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac amserol a, lle y bo'n bosibl, i rannu gwersi'n gyflymach.

20 Rwyf wedi ymgynghori â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y byddaf yn mynd ati i gyflawni fy nyletswyddau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fe estynnwyd yr ymgynghoriad hwn oherwydd y pandemig.

21 Yn fy ymgynghoriad rwyf wedi nodi a cheisio barn ynglŷn â chynigion i:

a) parhau i gynnal archwiliadau penodol i asesu'r modd y pennwyd amcanion llesiant a sut y mae camau'n cael eu cymryd i'w cyflawni, yn eu tro;

b) integreiddio'r gwaith archwilio camau ochr yn ochr ag astudiaethau gwerth am arian a gwaith archwilio lleol, lle bynnag y bo'n bosibl; ac

c) cryfhau ac ehangu'r modd y cydgysylltir gwaith gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

22 Byddaf yn ysgrifennu at y 44 o gyrff cyhoeddus a ddynodwyd dan y Ddeddf i nodi canlyniadau'r ymgynghoriad a sut yr wyf yn bwriadu mynd ati i wneud y gwaith hwn dros gyfnod adrodd 2020-2025.

23 Yng ngoleuni'r ffactorau uchod rwy'n bwriadu cadw cryn dipyn o hyblygrwydd yn fy rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol yn yr Awdurdod a byddaf yn parhau i roi diweddariadau i'r Awdurdod wrth i'r rhaglen o waith archwilio newid.

24 Ar gyfer 2020-21 caiff y gwaith hwn ei nodi isod.

**Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2021-22**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2021-22.

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Mesur Llywodraeth Leol 2009 | Archwiliad o'r Cynllun Gwella ac asesiad o berfformiad. |
| Archwiliadau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) | Manylion pellach i ddilyn. |
| Adolygiad Gwerth am Arian | Manylion pellach i ddilyn. |

# Swyddogaethau archwilio statudol

25 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu nodi yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

26 Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi, tîm archwilio ac amserlen

27 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y byddir yn cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae gwybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arni;
- darperir ystafelloedd a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf;
- mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

28 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi

29 Caiff eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2021 ei nodi yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn gynnydd o 1.6% o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol yn 2020. Mae'r cynnydd yn ymwneud â gwaith y byddwn yn ei wneud ar eich ailbrisiad o ystadau bob pum mlynedd. Sylwer bod y ffi arfaethedig hon yn dal i fod yn amodol ar gyfryngu terfynol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Arddangosyn 3: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2021, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwiliad o'r cyfrifon [2] | 45,955 | 45,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 15,309 | 15,309 |
| Cyfanswm y ffi | 61,264 | 60,309 |

30 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Awdurdod yn gyntaf.

31 Mae rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r modd y caiff ffioedd eu pennu ar gael ar ein gwefan.

## Tîm archwilio

32 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Amanda Hughes<br>Matthew Edwards | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol)<br>Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829340<br>02920 320663 | amanda.hughes@archwilio.cymru<br>matthew.edwards@archwilio.cymru |

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[2] Yn daladwy o fis Tachwedd 2020 tan fis Hydref 2021.

[3] Yn daladwy o fis Ebrill 2021 tan fis Mawrth 2022.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Nick Selwyn | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320500 | nick.selwyn@archwilio.cymru |

33 Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw.

## Amserlen

34 Caiff y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn eu dangos yn **Arddangosyn 5**. Fel a amlygwyd yn gynharach, efallai y bydd angen diwygio'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau gyda COVID-19.

35 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyfrifon yr Awdurdod. Mae'r hawl i ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004. Gallai'r cyfyngiadau cyfredol mewn perthynas â COVID osod cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i hwyluso'r broses o archwilio'r cyfrifon. Felly, nid ydym wedi pennu dyddiad eto ar gyfer arfer hawliau etholwyr a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa cyn cadarnhau dyddiad gyda chi. Rydym yn rhagweld y byddwn mewn sefyllfa i gytuno ar ddyddiad gyda chi tuag at ddiwedd mis Mai 2021.

**Arddangosyn 5: Amserlen archwilio**

| Allbwn arfaethedig | Gwneud y gwaith | Cwblhau'r adroddiad |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2021** | Chwefror – Mawrth 2021 | Ebrill 2021 |
| **Gwaith archwilio'r Datganiadau Ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Chwefror – Gorffennaf 2021 | Gorffennaf 2021<br><br>Gorffennaf 2021 |

| Allbwn arfaethedig | Gwneud y gwaith | Cwblhau'r adroddiad |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio perfformiad:**<br>• Mesur Llywodraeth Leol 2009<br>• Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Adolygiad gwerth am arian | Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u nodi yn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob astudiaeth. | |
| **Crynodeb Archwilio Blynyddol** | Amherthnasol | Rhagfyr 2021 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.